**YMGYNGHORIAD AGORED**

**GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS AR REOLAETH CŴN ARFAETHEDIG YN SIR FYNWY**

DYDDIAD CYCHWYN YR YMGYNGHORIAD 2il O HYDREF 2023 DYDDIAD CAU'R YMGYNGHORIAD 25ain O DACHWEDD 2023

**CEFNDIR:**

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gyfrifol am reoli a chynnal mannau cyhoeddus ar draws y sir, ac rydym yn ffodus fod gennym gymaint o leoliadau anhygoel. Mae'r cyfoeth o fannau cyhoeddus sydd gennym yn atyniad enfawr i drigolion, busnesau ac ymwelwyr â'r sir ac maent yn cefnogi perchnogaeth cŵn da.

Rydym yn cydnabod bod y mwyafrif o berchnogion cŵn yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn cadw eu ci(cŵn) dan reolaeth. Mae hyn yn cynnwys clirio ar eu hôl mewn man cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn derbyn nifer sylweddol o gwynion ynghylch materion yn ymwneud â chŵn mewn mannau cyhoeddus, yn enwedig baw ci. Mae'r rhain yn parhau er gwaethaf ymdrechion gorau'r cyngor a'i bartneriaid i godi ymwybyddiaeth o natur wrthgymdeithasol cŵn yn baeddu a materion cysylltiedig.

Mae'r cyngor, a hysbyswyd gan ymgynghoriad cyhoeddus tri mis yn 2021, wedi bod yn adolygu'r rheolaethau presennol sydd ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol o ran cynnal lle glanach, iachach a mwy diogel i fyw a gweithio ynddo yn ogystal ag ymweld ag ef.

**BETH YW GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (PSPO)?**

Fe'i cyflwynwyd gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (y Ddeddf) a bwriad PSPO yw mynd i'r afael ag unrhyw ymddygiad arbennig o barhaus ac afresymol sy'n cael, neu'n debygol o gael, effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl mewn ardal benodol.

Y nod yw atal yr ymddygiad afresymol mewn mannau cyhoeddus drwy gyflwyno cyfyngiadau ar y defnydd a wneir o ardal. Diffinnir "Man Cyhoeddus" fel **'unrhyw fan y mae gan y cyhoedd neu unrhyw garfan o'r cyhoedd fynediad ato, drwy dalu neu fel arall, yn unol â'u hawliau neu yn rhinwedd caniatâd datganedig neu ganiatâd ymhlyg.'**

Gall PSPO bara am hyd at dair blynedd, ac wedi hynny gellir ei ymestyn yn dilyn ymgynghoriad pellach. Mae torri cyfyngiad PSPO yn drosedd sy'n agored ar euogfarn yn y llys i ddirwy o hyd at £1000. Yn y lle cyntaf, yn gyffredinol, byddai Hysbysiad Cosb Benodedig (uchafswm £100) yn cael ei roi.

**Crynodeb o'r Cynigion**

Darperir y rheolaethau cŵn presennol yn y sir gan Orchymyn Dynodi (Baeddu Tir gan Gŵn) Cyngor Sir Fynwy (Sir Fynwy) (Rhif 1) 1998. Mae hyn yn ei gwneud yn drosedd i beidio â chodi baw eich ci os yw'n baeddu mewn rhai mannau cyhoeddus penodol. **Nid yw'n cynnwys pob man cyhoeddus.**

Yn 2021 fe ymgynghorom â'r cyhoedd er mwyn canfod a oedd cefnogaeth i roi rhagor o reolaethau cŵn ar waith yn y sir. Ers hynny bu ymgynghori eang ag aelodau etholedig, clybiau a chymdeithasau chwaraeon a thirfeddianwyr allweddol mannau cyhoeddus er mwyn mireinio cynigion. Mae gan y PSPO drafft bum rheoliad cŵn arfaethedig:

- Darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person sydd â gofal am gi i lanhau os yw'n baeddu mewn man cyhoeddus. Bydd hyn yn berthnasol ar BOB darn o dir y mae gan y cyhoedd fynediad ato yn Sir Fynwy.

- Darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gyfrifol am gi mewn man cyhoeddus gael dull priodol (e.e. bag ci) i godi unrhyw faw a adawyd gan y ci hwnnw a dangos bod ganddo/ganddi fag(iau) os gofynnir iddynt wneud hynny gan swyddog awdurdodedig.

- Darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person sydd â gofal am y ci, pan fyddant mewn man cyhoeddus, roi'r ci ar dennyn, nad yw'n hirach na 2 fetr o hyd, pan gaiff ei gyfarwyddo i wneud hynny gan swyddog awdurdodedig, pan fernir bod y ci allan o reolaeth, neu'n achosi braw neu drallod, neu er mwyn atal niwsans.

- Cyflwyno nifer o ardaloedd gwahardd cŵn, a nodwyd drwy ymgynghoriad fel meysydd risg uchel o ran iechyd y cyhoedd ac sydd angen eu hamddiffyn ymhellach rhag baw cŵn. Yn gyffredinol, mannau chwarae i blant a meysydd chwaraeon wedi'u marcio yw'r rhain.

- Cyflwyno nifer o ardaloedd, a nodwyd drwy ymgynghori ar sail achosion unigol, lle mae angen cadw ci ar dennyn heb fod yn fwy na 2 fetr o hyd.

Mae yna hefyd nifer o eithriadau yn y gorchymyn:

- Ni fydd y darpariaethau baw cŵn yn berthnasol i rai pobl anabl, y mae eu golwg neu anableddau eraill yn eu hatal rhag gallu glanhau ar ôl eu cŵn.

- Ni fydd y darpariaethau gwahardd cŵn yn berthnasol i gi sydd wedi'i hyfforddi gan elusen gofrestredig i gynorthwyo person ag anabledd ac y mae person anabl yn dibynnu arno am gymorth.

- Ni fydd unrhyw un o'r darpariaethau yn berthnasol i weithgareddau arferol ci gwaith, tra bydd y ci yn gweithio.

**Sut mae gwneud sylwadau ar y cynigion?**

Mae'r arolwg ar gael ar ein gwefan: https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/gorchymyn-diogelu-mannau-cyhoeddus-ar-reolaeth-cwn-arfaethedig/

Os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau am yr arolwg, os oes angen yr holiadur arnoch mewn iaith neu fformat arall neu os oes angen cymorth arnoch i lenwi'r ffurflen, ffoniwch 01873 735420 neu e-bostiwch environmentalhealth@monmouthshire.gov.uk a byddwn yn hapus i helpu.